Inspection of Youth Offending
Archwilio Rhaglen Troseddwyr Ifanc

Criminal Justice Joint Inspection
Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol

# Arolygiad Achosion Craidd o waith troseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr

## Adroddiad ar waith troseddwyr ifanc yn:

## **Powys**

ISBN: 978-1-84099-356-1

2010

## Rhagair

Cafodd yr Arolygiad Achosion Craidd hwn o waith troseddwyr ifanc ym Mhowys ei gynnal fel rhan o'r Rhaglen o Arolygu Gwaith Troseddwyr Ifanc. Rydym wedi archwilio sampl gynrychioliadol o achosion troseddwyr ifanc o'r ardal, ac wedi barnu pa mor aml y cafodd yr agweddau Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu ar y gwaith eu cyflawni i safon ddigon uchel.

Gwnaethom farnu bod yr agweddau Diogelu ar y gwaith wedi cael eu cyflawni'n ddigon da 66% o'r amser. Gyda'r agweddau Gwarchod y Cyhoedd, cafodd gwaith i leihau Risg pob unigolyn o achosi Niwed i Eraill ei wneud yn ddigon da 57% o'r amser, a chafodd gwaith i wneud pob unigolyn yn llai tebygol o aildroseddu ei wneud yn ddigon da 70% o'r amser. Rhoddir dadansoddiad mwy manwl o'n darganfyddiadau yng nghorff yr adroddiad hwn, a chrynodeb ar ffurf tabl yn Atodiad 1. Gellir darllen y ffigurau hyn yng nghyd-destun ein darganfyddiadau o'r rhannau o Loegr a arolygwyd hyd yma. Hyd yn hyn, y sgôr cyfartalog ar gyfer Gwaith Diogelu oedd 64%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 38-82%, y sgôr cyfartalog ar gyfer gwaith Risg o Niwed oedd 60%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 36-85%, a'r sgôr cyfartalog ar gyfer gwaith Tebygolrwydd o Aildroseddu oedd 66%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 50-82%.

Ar y cyfan, rydym o'r farn bod y darganfyddiadau hyn yn rhai cyfartalog. Roedd angen i'r rheolwyr achos roi mwy o sylw i gyflawni asesiadau o'r Risg o Niwed i eraill ac i statws agored i niwed, ac roedd angen i reolwyr sicrhau ansawdd asesiadau a'r cynlluniau sy'n deillio ohonynt yn effeithiol. Roedd yn galonogol bod staff yng Ngwasanaeth Troseddwyr Ifanc Powys, gan fwyaf, yn gallu pwyso a mesur eu hymarfer ac ystyried sut i wella eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc.

*Andrew Bridges*
*Prif Arolygydd Prawf EM*

*Awst 2010*

## Cydnabyddiaeth

Hoffwn ddiolch i'r holl staff o'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc, i aelodau o'r Bwrdd Rheoli ac i asiantaethau partner am eu cymorth gyda sicrhau bod yr arolygiad hwn wedi rhedeg yn llyfn.

| | |
|---|---|
| *Prif Arolygydd* | *Richard Pearce* |
| *Asesydd Ymarfer* | *Chris Simpson* |
| *Asesydd CCI* | *Frances Connell* |
| *Staff Cymorth* | *Pete Clegg; Catherine Calton* |
| *Tîm Cyhoeddiadau* | *Alex Pentecost; Christopher Reeves* |
| *Golygydd* | *Alan MacDonald* |

## Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | Cydnabyddiaeth | 4 |
| | Sgorio – a Thabl Crynodeb | 6 |
| | Argymhellion | 7 |
| | Y camau nesaf | 7 |
| | Persbectif y Defnyddwyr Gwasanaeth | 8 |
| | Rhannu arferion da | 10 |
| 1. | ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU | 11 |
| | 1.1. Risg o Niwed i eraill (RoN) | 11 |
| | 1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu (ToA) | 12 |
| | 1.3 Diogelu: | 13 |
| 2. | DARPARU AC ADOLYGU YMYRIADAU | 15 |
| | 2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau'r Risg o Niwed i eraill | 15 |
| | 2.2 Lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu | 16 |
| | 2.3 Diogelu'r plentyn neu'r person ifanc | 16 |
| 3. | CANLYNIADAU | 19 |
| | 3.1 Sicrhau canlyniadau | 19 |
| | 3.2 Cynnal canlyniadau | 19 |
| | Atodiad 1: Crynodeb | 21 |
| | Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol | 22 |
| | Atodiad 3a: Siartiau o ddata'r arolygiad | 23 |
| | Atodiad 3b: Data'r arolygiad | 24 |
| | Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer | 24 |
| | Atodiad 5: Rhestr Termau | 25 |

## Sgorio – a Thabl Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sgoriau canran ar gyfer pob un o'r 'meini prawf ymarfer' sy'n nodi pa mor aml i bob agwedd ar y gwaith gwrdd â'r lefel ansawdd yr oeddem yn chwilio amdani. Yn yr arolygiadau hyn rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar yr agweddau Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu ar y gwaith ym mhob sampl o achosion.

Felly, roeddem yn gallu rhoi sgôr sy'n cynrychioli pa mor aml oedd yr agweddau *Gwarchod y Cyhoedd* a *Diogelu* ar yr achosion a aseswyd yn cyrraedd y lefel o ansawdd yr oeddem yn chwilio amdani, a grynhoir yma.

Rydym hefyd yn rhoi prif 'sylw' wrth bob sgôr, i nodi a oeddem yn ystyried bod angen i'r agwedd yma ar y gwaith wella **YCHYDIG**, **RHYWFAINT**, **YN SYLWEDDOL** neu'n **ARW** yn y dyfodol agos.

| ***Sgôr Diogelu:*** | |
|---|---|
| Mae'r sgôr hwn yn nodi'r ganran o waith *Diogelu* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. Mae'r sgôr yn bwysig i'n helpu i benderfynu a oes angen arolygiad pellach cynt neu beidio. | |
| ***Sgôr:*** ***66%*** | ***Sylw:*** ***Angen gwella RHYWFAINT*** |

| ***Gwarchod y Cyhoedd: sgôr Risg o Niwed:*** | |
|---|---|
| Mae'r sgôr hwn yn nodi'r ganran o waith *Risg o Niwed* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. Mae'r sgôr yn bwysig i'n helpu i benderfynu a oes angen arolygiad pellach cynt neu beidio. | |
| ***Sgôr:*** ***57%*** | ***Sylw:*** ***Angen gwella'n SYLWEDDOL*** |

| ***Gwarchod y Cyhoedd – Sgôr Tebygolrwydd o Aildroseddu:*** | |
|---|---|
| Mae'r sgôr hwn yn nodi'r ganran o waith *Tebygolrwydd o Aildroseddu* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. | |
| ***Sgôr:*** ***70%*** | ***Sylw:*** ***Angen gwella RHYWFAINT*** |

Rydym yn cynghori darllenwyr adroddiadau i beidio â cheisio cymharu sgoriau gwahanol ardaloedd yn rhy fanwl. Nid yw cymariaethau fel hyn o reidrwydd yn ddilys oherwydd bod maint y samplau'n amrywio fymryn, felly hefyd proffil yr achosion yn sampl pob ardal. Credwn ei bod yn well edrych ar y sgôr fel prif grynodeb o'r darganfyddiadau ym mhob ardal unigol, ac fel ffocws i wella ar waith yr ardal honno yn y dyfodol.

## Argymhellion (rhoddir y person sy’n bennaf gyfrifol mewn cromfachau)

Mae angen gwneud newidiadau i sicrhau, mewn cyfran uwch o achosion:

(1) bod asesiad a chynllun amserol ac o ansawdd da, yn defnyddio ASSET, yn cael ei gwblhau ar ddechrau’r achos (Rheolwr y Gwasanaeth)

(2) yn benodol, bod asesiad amserol ac o ansawdd da yn cael ei wneud ar y dechrau o Risg yr unigolyn o achosi Niwed i eraill ac o’i statws agored i niwed, fel y bo’n briodol i’r achos dan sylw (Rheolwr y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc)

(3) o ganlyniad i'r asesiad, bod cofnod y cynllun ymyrryd yn benodol ynghylch beth fydd yn awr yn cael ei wneud i ddiogelu lles y plentyn neu'r person ifanc, i’w gwneud yn llai tebygol o aildroseddu, ac i leihau unrhyw *Risg o Niwed* i eraill sydd wedi cael ei adnabod (Rheolwr y Gwasanaeth)

(4) bod cynlluniau o ansawdd da yn rhoi sylw i Risg o Niwed i eraill a statws agored i niwed yn cael eu cwblhau a’u hadolygu’n briodol (Rheolwr y Gwasanaeth)

(5) bod y cynllun gwaith gyda’r achos dan sylw’n cael ei adolygu’n gyson a’i gofnodi’n gywir yn ASSET mor aml ag y bo'n ofynnol gan y safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau troseddwyr ifanc (Rheolwr y Gwasanaeth)

(6) bod tystiolaeth yn y ffeil o sicrhau ansawdd rheolaidd gan reolwyr, yn enwedig o benderfyniadau sgrinio, asesiadau a chynlluniau, fel y bo’n briodol i’r achos penodol (Rheolwr y Gwasanaeth).

Hefyd:

(7) bod gan y Gwasanaeth drefniadau clir yn eu lle ar gyfer rheoli achosion y maent yn gofalu amdanynt i Dimau Troseddwyr Ifanc eraill, neu ar gyfer eu hachosion eu hunain sydd dan ofal Dimau eraill, a bod y staff i gyd yn deall y trefniadau hyn yn glir a’u bod yn cael eu cymhwyso'n gyson (Rheolwr y Gwasanaeth)

## Y camau nesaf

Dylid cyflwyno cynllun gwelliannau i ateb yr argymhellion i Arolygiaeth Prawf EM bedair wythnos ar ôl cyhoeddi’r adroddiad hwn ar yr arolygiad. Ar ôl ei ddrafftio’n derfynol, bydd y cynllun yn cael ei anfon ymlaen at y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i fonitro ei weithrediad.

## Persbectif y Defnyddwyr Gwasanaeth

### Plant a phobl ifanc

| |
|---|
| Llenwodd naw o blant a phobl ifanc holiadur ar gyfer yr arolygiad hwn. |

- Roedd pob un o'r plant a'r bobl ifanc yn gwybod pam yr oeddent wedi dod at y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc ac yn dweud bod staff y Gwasanaeth wedi rhoi gwybod iddynt beth fyddai'n digwydd tra byddent gyda nhw.
- Roedd yr holl blant a phobl ifanc yn gwybod beth oedd cynllun dedfrydu neu gontract atgyfeirio ac wedi gweld a thrafod eu rhai nhw gyda'r gweithiwr Gwasanaeth. Roedd pob un wedi llenwi ffurflen hunanasesiad ac roedd y rhan fwyaf wedi derbyn copi o'u cynllun dedfrydu i'w gadw.
- Roedd chwech o'r naw yn cytuno'n llwyr bod gan y gweithiwr Gwasanaeth ddiddordeb yn eu helpu ac roedd tri yn cytuno gan fwyaf.
- Roedd bron bob un o'r plant a'r bobl ifanc yn teimlo bod y Gwasanaeth yn bendant wedi cymryd camau i ddelio gyda'r pethau yr oeddent angen cymorth gyda nhw. Y cymorth mwyaf cyffredin a roddwyd oedd i ddeall eu troseddu, i wneud penderfyniadau gwell, i reoli straen a gyda theulu / perthnasoedd.
- O'r saith o blant a phobl ifanc oedd wedi ymateb, dywedodd chwech fod gwaith y Gwasanaeth wedi eu gwneud yn llawer llai tebygol o aildroseddu.
- Dywedodd un person ifanc fod y gweithiwr Gwasanaeth wedi rhoi 'amser imi feddwl' ac wedi 'cadw pethau'n syml'. Dywedodd un arall nad oedd ganddo rithyn o ddiddordeb mewn gweithio ond ei fod yn ddiolchgar bod gweithiwr y Gwasanaeth wedi ei sbarduno i chwilio am waith.

## Dioddefwyr

Cafodd naw holiadur eu llenwi gan ddioddefwyr troseddau a gyflawnwyd gan blant a phobl ifanc.

- Teimlai bob un o'r naw dioddefwr fod y Gwasanaeth wedi egluro'r gwasanaeth y gallent ei gynnig ac wedi ystyried eu hanghenion. Roeddent i gyd yn cytuno eu bod wedi cael cyfle i siarad am eu pryderon gan gynnwys unrhyw ofidiau am y plentyn neu'r person ifanc oedd wedi cyflawni'r trosedd yn eu herbyn. Teimlai'r holl rai a oedd wedi ymateb fod y Gwasanaeth wedi talu sylw i'w diogelwch.
- Roedd pump o'r naw dioddefwr wedi elwa o waith a wnaed gan y plentyn neu'r person ifanc a oedd wedi cyflawni'r trosedd.
- Roedd chwech o'r dioddefwyr yn gwbl fodlon gyda gwaith y Gwasanaeth; roedd tri'n fodlon gan fwyaf.
- Roedd pedwar o'r dioddefwyr wedi gwneud sylwadau ychwanegol. Dywedodd un dioddefwr ei fod 'wedi cael yr esboniadau a'r trafodaethau i fod yn hynod ddefnyddiol a hefyd wedi ystyried...........sut allai pawb weithio gyda'i gilydd ar hyn. Roedd y cysylltiadau yn y Tîm Troseddwyr Ifanc yn hynod barod i helpu, i ddeall ac yn hollol ymroddedig. Nid oes gen i ddim ond canmoliaeth iddynt.'  Dywedodd un arall fod gan y swyddog dioddefwyr 'ffordd glên iawn ac wedi helpu fy ngwraig i ymlacio'. Dywedodd un dioddefwr 'O mhrofiad i....ni wnaeth y troseddwr unrhyw beth a'r aelod o staff wnaeth y gwaith i gyd! Ni ddangosodd y troseddwr unrhyw edifeirwch na gofid amlwg.'

## Rhannu arferion da

Isod rhoddir enghreifftiau o arferion da a welsom yn y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc.

| | |
|---|---|
| **DARPARU AC ADOLYGU YMYRIADAU**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol:**<br>**2.2** | Bachgen dwy ar bymtheg oedd Kevin a oedd dan oruchwyliaeth am ddwyn car. Roedd y rheolwr achos wedi trefnu i wneud gwaith ffurfiol gyda Kevin i edrych ar ei agweddau at geir a'r risgiau sy'n gysylltiedig â throseddau cerbydau. Roedd yn gwybod bod Kevin wedi cyflawni ymarferion 'troseddau ceir' safonol ddwy flynedd ynghynt ac yn debygol o ddiflasu gyda nhw pe bai'n eu hail-adrodd. Penderfynodd y rheolwr achos addasu'r deunyddiau yn defnyddio enghreifftiau lleol diweddar o bobl yn marw mewn digwyddiadau traffig. Roedd y person ifanc wedi cyfrannu'n llawer gwell nag o'r blaen at y drafodaeth am yr enghreifftiau go iawn hyn ac wedi gallu edrych ar y risgiau iddo ef yn bersonol ac i eraill, o yrru'n anghyfreithlon. |

| | |
|---|---|
| **Canlyniadau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol:**<br>**3.1** | Roedd Brian (17) dan oruchwyliaeth am drosedd o anonestrwydd yn erbyn gwraig oedrannus. Roedd Brian a'r dioddefwr yn gyndyn braidd o gyfryngu ond yn barod i gwrdd. I ddechrau, roedd Brian am fynychu heb i'w rieni fod yn bresennol. Fodd bynnag, teimlai'r rheolwr achos a'r gweithiwr dioddefwr, er bod Brian yn ddwy-ar-bymtheg, y byddai'n werth cael ei rieni i glywed drostynt eu hunain beth oedd effaith ddifrifol y trosedd, yn ogystal â chefnogi Brian yn ei ymdrechion i wneud iawn. Roedd y sesiwn gyfryngu yn un bwerus ac emosiynol iawn. Drwy gydol gweddill ei gyfnod dan oruchwyliaeth, cyfeiriodd Brian yn aml at y cyfarfod, gan ddweud tan hynny nad oedd ganddo syniad gwirioneddol o gwbl o ganlyniadau ei ymddygiad. |

# 1. ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU

| 1.1. Risg o Niwed i eraill: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o RoN yn gynhwysfawr, cywir ac amserol, yn ystyried materion dioddefwyr ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i reoli'r RoN.* | |
| ***Sgôr:***<br>***59%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella'n SYLWEDDOL*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd sgrinio am RoND wedi cael ei wneud mewn 87% o achosion, ac wedi eu cwblhau ar amser mewn 78%. Roedd y sgrinio'n gywir mewn 71% o achosion.

(2) Roedd y dosbarthiad o RoND yn gywir mewn 94% o'r sampl.

(3) Ym mhob un o'r chwech achos lle'r oedd ei angen, roedd yr asesiad o RoND wedi cael ei anfon ymlaen at y sefydliad dan glo o fewn 24 awr i'r ddedfryd.

(4) Mewn achosion lle nad oedd angen Cynllun Rheoli Risg, ond lle'r oedd angen cynllunio i ddelio gyda materion *RoN*, roedd hyn wedi'i wneud mewn pedwar allan o'r chwech achos perthnasol.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd dadansoddiad amserol o RoND wedi'i wneud ond mewn 8 allan o'r 18 achos (44%) lle'r oedd angen gwneud hynny. Roedd yr un ganran wedi cael eu cwblhau i safon foddhaol.

(2) Dim ond hanner yr asesiadau o RoND oedd wedi defnyddio'r holl wybodaeth briodol.

(3) Roedd Cynllun Rheoli Risg wedi'i gwblhau mewn 38% o achosion perthnasol, ac wedi ei gwblhau i safon foddhaol yn chwarter yr achosion. Dim ond 13% oedd wedi eu cwblhau ar amser.

(4) Dim ond un o'r ddau achos a oedd yn cwrdd â'r meini prawf MAPPA oedd wedi cael ei hysbysu i MAPPA. Credwn fod yr achos hwn wedi'i reoli ar lefel rhy isel i ddechrau.

(5) Roedd manylion asesu a rheoli'r RoND wedi cael eu cyfathrebu'n briodol i'r holl staff a'r asiantaethau perthnasol mewn 44% o achosion.

(6) Roedd tystiolaeth bod rheolwyr wedi goruchwylio'r asesiadau o *RoN* yn effeithiol mewn 5 allan o'r 17 achos (29%) lle'r oedd eu hangen, a'r Cynlluniau Rheoli Risg mewn 3 allan o'r 14 achos perthnasol (18%).

| **1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o ToA yn gynhwysfawr, cywir ac amserol ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i leihau'r ToA.* | |
| ***Sgôr:***<br>***63%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

## *Cryfderau:*

(1) Roedd y plentyn neu'r person ifanc a'r rhieni / gofalwyr wedi cael eu cynnwys yn weithredol, i gyflawni'r asesiad cychwynnol, yn y mwyafrif llethol o'r achosion.

(2) Roedd yr asesiad cychwynnol wedi cael ei gwblhau mewn 95% o achosion, ar amser mewn 87% ac i safon foddhaol mewn 82%.

(3) Roedd yr asesiadau cychwynnol yn cynnwys gwybodaeth gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant mewn 71% o achosion a chan yr heddlu mewn 12 allan o'r 15 achos perthnasol.

(4) Roedd yr asesiad cychwynnol wedi cael ei anfon ymlaen at y sefydliad dan glo ym mhob un o'r saith achos lle'r oedd angen gwneud hynny.

(5) Roedd cynllun ymyrryd neu gontract atgyfeirio'n bodoli mewn 89% o achosion; roedd 79% wedi eu cwblhau ar amser. Roedd cynlluniau'n canolbwyntio ar newid cyraeddadwy (85%); yn adlewyrchu pwrpas y ddedfryd (85%); ac yn cynnwys ffactorau cadarnhaol (76%).

(6) Roedd y plentyn neu'r person ifanc wedi cael ei gynnwys yn weithredol yn broses gynllunio mewn 88% o achosion; y rhieni / gofalwyr mewn 74%. Ym mhob un o'r achosion dan glo, roedd y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc a'r sefydliad dan glo wedi cael eu cynnwys yn weithredol yn y broses gynllunio.

## *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd yr asesiad cychwynnol wedi cael ei oleuo gan ffurflen *Beth ydych CHI'N ei feddwl?* mewn bron i hanner yr achosion. Roedd y rheolwr achos wedi asesu'r arddull ddysgu mewn un o bob tri achos.

(2) Yn yr asesiadau cychwynnol, roedd diffyg gwybodaeth gan ddarparwyr ETE mewn 47% o achosion; a chan y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau mewn 55%. Cawsom nifer lai o achosion lle oeddem yn teimlo y dylid bod wedi gofyn am wybodaeth gan y gwasanaethau iechyd corfforol, y tîm ymddygiad gwrthgymdeithasol neu'r sefydliad dan glo.

(3) Nid oedd y cynllun ymyrryd neu'r gorchymyn atgyfeirio yn rhoi digon o sylw i'r ffactorau a oedd yn gysylltiedig â ToA mewn 49% o achosion. Y diffygion gwybodaeth mwyaf amlwg oedd perthnasoedd teuluol a phersonol, trefniadau byw, iechyd meddwl ac emosiynol a ffordd o fyw.

(4) Roedd cynlluniau ymyrryd yn integreiddio Cynlluniau Rheoli Risg mewn 29% o'r achosion perthnasol; yn ystyried anghenion Diogelu mewn 45%; yn ymgorffori anghenion / arddull ddysgu'r plentyn neu'r person ifanc mewn 33%; ac yn gosod amserlen realistig mewn 32%.

(5) Lle'r oedd yn berthnasol, roedd amcanion yn y cynlluniau ymyrryd wedi cael eu blaenoriaethu yn ôl *RoN* mewn 36% o achosion; yn cynnwys gwaith Diogelu priodol mewn 35%; yn cyfateb i'r angen a oedd yn gysylltiedig â'r trosedd mewn 41%, ac yn sensitif i faterion amrywiaeth mewn 29%.

(6) Roedd y gwasanaethau plant, y gwasanaethau iechyd meddwl / emosiynol, y gwasanaethau iechyd corfforol a'r heddlu wedi cael eu cynnwys yn weithredol ac yn ystyrlon yn y broses gynllunio mewn llai na hanner yr achosion hynny lle byddai hynny wedi bod yn briodol.

(7) Roedd y cynllun ymyrryd yn cael ei adolygu ar yr adegau priodol mewn dim ond 56% o achosion.

| **1.3 Diogelu:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o anghenion Diogelu yn gynhwysfawr, cywir ac amserol, ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i reoli Diogelu ac i leihau statws agored i niwed.* | |
| ***Sgôr:***<br>***62%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd sgrinio am statws agored i niwed yn defnyddio ASSET wedi'i wneud mewn 89% o achosion ac roedd 82% ar amser.

(2) Roedd y sefydliad dan glo wedi cael gwybod am faterion agored i niwed cyn, neu'n syth ar ôl y ddedfryd ym mhob un o'r achosion dan glo. Roedd cyswllt gweithredol a rhannu gwybodaeth bellach wedi digwydd ym mhob un o'r chwe achos lle'r oedd angen gwneud hynny.

(3) Roedd cyfraniad wedi'i wneud drwy gynlluniau ac asesiadau amlasiantaeth i ddiogelu'r plentyn neu'r person ifanc mewn 11 o'r 15 achos lle oedd hynny'n briodol.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Cafodd sgrinio am gyflwr agored i niwed yn defnyddio ASSET ei gwblhau'n foddhaol mewn dau o bob tri o'r achosion.

(2) Roedd anghenion diogelu wedi cael eu hadolygu fel y bo'n briodol mewn 55% o achosion.

(3) Roedd Cynllun Rheoli Agored i Niwed wedi’i gwblhau ond mewn 9 allan o’r 21 achos (43%) lle’r oedd angen cael un. Roedd chwech wedi eu cwblhau ar amser, ac wyth i safon foddhaol. Y prif reswm dros y diffyg oedd nad oedd y Cynllun Rheoli Agored i Niwed wedi cael ei wneud o'r blaen.

(4) Roedd cynnwys y Cynllun Rheoli Agored i Niwed yn goleuo’r dewis o ymyriadau dim ond mewn pedwar allan o’r naw achos lle oedd Cynllun o’r fath wedi’i gwblhau.

(5) Roedd tystiolaeth bod rheolwyr wedi goruchwylio'r asesiad agored i niwed yn effeithiol mewn 10 allan o’r 25 achos lle oedd hyn yn berthnasol.

**Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith Asesu a Chynllunio Dedfrydau: 62%**

**SYLWADAU ar Asesu a Chynllunio Dedfrydau ar y cyfan:**

Roedd y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc yn defnyddio llyfryn wedi’i ddyfeisio’n lleol i adnabod achosion i gynllunio cyfarfodydd. Roedd gan hyn hefyd y potensial i helpu rheolwyr i wybod pa achosion oedd angen Cynllun Rheoli Risg a Chynllun Rheoli Agored i Niwed. Fodd bynnag, yn ein sampl, roedd rhai dynodiadau risg yn y llyfryn yn wahanol i’r rhai yn ASSET, ac roedd rhai rheolwyr achos yn cwblhau’r llyfryn ond ddim yn cyflawni dadansoddiad ASSET llawn o’r *Risg o Niwed i eraill*, neu Gynllun Rheoli Agored i Niwed, lle oedd angen gwneud hynny. Roedd yna hefyd broblemau gyda goruchwylio rhai plant a phobl ifanc mewn gofal. Roedd protocol lleol yn ceisio diffinio rolau Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Powys yn ogystal â’r ‘Tîm Troseddwyr Ifanc gwreiddiol' a'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, roedd llawer o asesiadau a chynlluniau ar gyfer y plant a’r bobl ifanc hyn heb gael eu diweddaru. Mewn rhai achosion roedd hyn fel petai’n gysylltiedig â thrafferthion gyda chyfathrebu a chytuno ar rolau yn y meysydd eraill a oedd yn cyfrannu; mewn eraill, roedd y rheolwr achos yn ansicr ynghylch ei rôl. Yn olaf, gwnaethom nodi bod rhai staff yn anghyfarwydd gydag agweddau ar y system TG Careworks, gan arwain at anghysondebau a diffyg cywirdeb yn y cofnodi.

## 2. DARPARU AC ADOLYGU YMYRIADAU

| **2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau'r Risg o Niwed i eraill:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:*** *Cymerwyd pob cam rhesymol i warchod y cyhoedd drwy leihau Risg y plentyn neu'r person ifanc o achosi Niwed i Eraill* | |
| ***Sgôr:*** **62 %** | ***Sylw:*** ***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd ymweliadau cartref i bwrpas wedi cael eu gwneud yn unol â lefel y *RoN* a oedd yn cael ei chyflwyno mewn 87% o achosion, ac yn unol â materion Diogelu mewn 78%.

(2) Roedd y rheolwr achos wedi cyfrannu at gyfarfodydd aml-asiantaeth (nid rhai MAPPA) ym mhob un o'r achosion dan glo, ac mewn 13 allan o'r 15 achos cymunedol (87%) lle oedd yn berthnasol.

(3) Roedd adnoddau priodol wedi cael eu dyrannu'n unol â lefel y *RoN* drwy gydol y ddedfryd mewn 76% o achosion. Roedd ymyriadau penodol i reoli'r *RoN* wedi cael eu darparu fel a gynlluniwyd yn y gymuned mewn 71% o achosion.

(4) Yn y ddau achos dan glo lle oedd newidiadau sylweddol wedi digwydd, roedd y rheolwr achos wedi adolygu'r ymyriadau a gynlluniwyd i ddelio gyda'r *RoN.*

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd y *RoN* wedi cael ei hadolygu o fewn yr amserlen ofynnol mewn 44% o'r holl achosion, ac yn dilyn newid sylweddol mewn 26% o achosion perthnasol.

(2) Roedd newidiadau yn y *RoN* / ffactorau acíwt wedi cael eu rhagweld lle oedd yn bosibl mewn 50% o achosion; wedi cael eu hadnabod yn ddiymdroi mewn 53%; a staff wedi ymateb iddynt yn briodol mewn 42%.

(3) Ym marn yr arolygwyr, ni wnaed defnydd effeithiol o MAPPA yr un o'r ddau achos perthnasol, ac yn yr un achos a hysbyswyd i'r cydlynydd MAPPA, nid oedd y penderfyniadau wedi cael eu cofnodi'n ddigon clir.

| 2.2 Lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r rheolwr achos yn cydgysylltu ac yn hwyluso'r gwaith systematig o ddarparu holl elfennau'r cynllun ymyrryd.* | |
| ***Sgôr:***<br>***72%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd ymyriadau wedi cael eu darparu yn y gymuned yn unol â'r cynllun ymyrryd (82%); o ansawdd da (72%); ac wedi eu dyfeisio i leihau'r ToA (79%).

(2) Roedd y Gwasanaeth wedi cyfrannu'n briodol at adolygu'r ymyriadau dan glo ym mhob achos.

(3) Roedd adnoddau priodol wedi cael eu dyrannu'n unol â lefel y ToA a aseswyd drwy gydol y ddedfryd mewn 76% o achosion.

(4) Roedd y rheolwyr achos wedi ysgogi, cefnogi ac atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol yn weithredol ym mhob un o'r plant a'r bobl ifanc dan glo, a bron ym mhob un o'r achosion yn y gymuned.

(5) Roedd rhieni / gofalwyr wedi cael eu cynnwys yn weithredol mewn 71% o'r achosion dan glo a 90% o'r rhai yn y gymuned.

### *Maes lle mae angen gwella:*

(1) Roedd yr ymyriadau a ddarparwyd yn y gymuned yn briodol i arddull ddysgu'r plentyn neu'r person ifanc (58%); wedi eu cyfateb yn briodol (34%); wedi eu hadolygu'n briodol (53%); ac yn ymgorffori'r holl faterion amrywiaeth (47%).

| 2.3 Diogelu'r plentyn neu'r person ifanc: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Cymerwyd pob cam rhesymol i ddiogelu a lleihau statws agored i niwed y plentyn neu'r person ifanc.* | |
| ***Sgôr:***<br>***68%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Lle bo angen, cymerwyd yr holl gamau diymdroi i ddiogelu ac amddiffyn y plentyn neu’r person ifanc ym mhob achos perthnasol dan glo, ac mewn 79% o’r achosion yn y gymuned. Yn y tri achos perthnasol dan glo, roedd yr holl gamau angenrheidiol diymdroi wedi cael eu cymryd i ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc eraill a effeithiwyd arnynt.

(2) Roedd atgyfeirio angenrheidiol, i sicrhau Diogelu, wedi’i wneud at asiantaethau perthnasol eraill ym mhob un o’r achosion dan glo ac mewn 83% o’r rhai yn y gymuned.

(3) Roedd y Gwasanaeth wedi gweithio gydag asiantaethau eraill i hyrwyddo diogelwch a lles plant a phobl ifanc yn y gymuned; yn enwedig gyda’r sefydliadau dan glo, y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, y gwasanaethau plant ac ETE.

(4) Yn yr achosion dan glo, roedd y Gwasanaeth wedi gweithio i hyrwyddo Diogelu gyda’r sefydliad dan glo a’r gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant, a chyda’r olaf i sicrhau parhad wrth drosglwyddo o fod dan glo i’r gymuned.

(5) Gwelsom ymyriadau penodol i hyrwyddo Diogelu, lle oedd yn berthnasol, mewn 70% o’r achosion yn y gymuned. Gyda’r achosion dan glo, roedd ymyriadau penodol wedi cael eu nodi a’u hymgorffori yn y Cynlluniau Rheoli Agored i Niwed ym mhob achos perthnasol. Roedd ymyriadau wedi cael eu darparu (83%) a’u hadolygu fel bo angen (80%).

(6) Roedd yr holl staff perthnasol wedi cefnogi a hybu lles y plentyn neu’r person ifanc drwy gydol y ddedfryd mewn 86% o’r achosion dan glo ac mewn 97% o’r achosion cymunedol.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd y Gwasanaeth wedi gweithio gyda’r gwasanaethau iechyd meddwl / emosiynol i hyrwyddo Diogelwch a lles y plentyn neu’r person ifanc mewn 5 allan o’r 17 achos cymunedol priodol (29%) ac mewn un allan o’r chwech achos dan glo (17%). Roedd y Gwasanaeth wedi gweithio gyda’r heddlu mewn un allan o’r pump achos perthnasol yn y gymuned.

(2) Yn dros hanner yr achosion dan glo, roedd diffyg cydweithio gyda'r gwasanaethau iechyd meddwl / emosiynol, camddefnyddio sylweddau, ETE a chyda darparwyr llety, i sicrhau parhad y gwasanaethau prif ffrwd wrth drosglwyddo o fod dan glo i'r gymuned.

(3) Roedd ymyriadau penodol i hyrwyddo Diogelu yn y gymuned yn ymgorffori’r rhai oedd wedi eu nodi yn y Cynllun Rheoli Agored i Niwed (44%), wedi cael eu darparu (67%) a’u hadolygu fel bo angen (48%).

(4) Roedd goruchwyliaeth gan reolwyr o anghenion Diogelu ac agored i niwed wedi'i wneud yn effeithiol yn hanner yr achosion yn y gymuned.

**Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith o Ddarparu ac Adolygu Ymyriadau: 68%**

**SYLWADAU ar Ddarparu ac Adolygu Ymyriadau ar y cyfan:**

Roedd llawer o’r cyswllt gyda’r plant a’r bobl ifanc yn digwydd yn eu cartrefi. Roedd hyn yn gwbl briodol mewn ardal mor wledig lle oedd y plentyn neu’r person ifanc yn aml yn methu â theithio i'r un o'r ddwy ganolfan gan y Gwasanaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus. Roedd hyn yn golygu teithio cyson gan staff y Gwasanaeth. Gwelsom dystiolaeth o waith strwythuredig rhagorol (e.e. gwaith rheoli dicter) a oedd wedi'i wneud yn y cartref gan nifer o ymarferwyr medrus iawn. Mewn achosion eraill, roedd y cyswllt yn ymddangos yn llai strwythuredig a beichus, efallai am ei fod yn cael ei ddarparu yn y cartref neu oherwydd faint o deithio oedd yn cael ei wneud.

# 3. CANLYNIADAU

| 3.1 Sicrhau canlyniadau: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae canlyniadau’n cael eu sicrhau yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:***<br>***65%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd y plentyn neu’r person ifanc wedi cydymffurfio gyda gofynion ei ddedfryd mewn 74% o achosion. Roedd camau gorfodi boddhaol wedi cael eu cymryd mewn dau o bob tri achos lle'r oedd angen eu cymryd.

(2) Roedd lleihad wedi bod yn nifrifoldeb y troseddu mewn 66% o achosion, ac yn y ffactorau risg a oedd yn gysylltiedig â Diogelu mewn 68% o achosion.

(3) Cymerwyd pob cam rhesymol i gadw’r plentyn neu’r person ifanc yn ddiogel mewn 87% o achosion.

### *Maes lle mae angen gwella:*

(1) Roedd y *RoN* yn cael ei rheoli’n effeithiol ond yn hanner yr achosion perthnasol.

| 3.2 Cynnal canlyniadau: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae canlyniadau’n cael eu cynnal yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:***<br>***89%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Rhoddwyd sylw llawn i faterion integreiddio yn y gymuned mewn 71% o’r achosion dan glo, ac mewn 89% o’r rhai yn y gymuned.


(2) Rhoddwyd sylw i sicrhau bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cynnal mewn 86% o’r achosion dan glo a 92% o’r rhai yn y gymuned.

## Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith Canlyniadau: 73%

## SYLWADAU ar Ganlyniadau ar y cyfan:

Gwelsom nifer o achosion lle oedd y rheolwr achos wedi defnyddio’r ychydig sesiynau olaf yn gynhyrchiol iawn i gynllunio gyda’r plentyn neu’r person ifanc beth fyddai ef neu hi’n ei wneud i gynnal eu cynnydd neu i osgoi mynd i helynt ar ôl i’w goruchwyliaeth ddod i ben.

## Atodiad 1: Crynodeb



## Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol

### Ardal

Roedd Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Powys wedi'i leoli yng nghanolbarth Cymru, gyda chyfrifoldeb dros un Awdurdod Sirol.

Roedd gan yr ardal boblogaeth o 126,354 fel a fesurwyd gan Gyfrifiad 2001, ac roedd 10.3% ohoni rhwng 10 a 17 oed. Roedd hyn fymryn yn is na'r cyfartalog ar gyfer Cymru, sef 10.6%. Y ffigur cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr oedd 10.4%.

Roedd poblogaeth Powys yn wyn Brydeinig yn bennaf (99.1%). Roedd y boblogaeth o bobl ddu a lleiafrifol ethnig (0.9%) yn is na'r cyfartalog ar gyfer Cymru o 2.1%. Y ffigur cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr yw 8.7%.

Roedd nifer y troseddau a ryportiwyd lle derbyniodd blant a phobl ifanc rhwng 10 a 17 oed benderfyniad cyn-llys a phenderfyniad llys yn 2008/2009, sef 36 am bob 1,000, yn is na'r cyfartalog ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 46.

### Y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc

Roedd ffiniau'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc o fewn yr un ffiniau ag ar gyfer ardal heddlu Dyfed Powys ac Ymddiriedolaeth Brawf Cymru. Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys oedd yn gyfrifol am iechyd yr ardal.

Roedd y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc wedi'i leoli yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Plant yn y Cyngor Sir. Roedd yn cael ei reoli gan uwch reolwr y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc a Gadael Gofal.

Roedd Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth wedi'i gadeirio gan Brif Weithredwr y Cyngor Sir.

Roedd ochr weithredol y Gwasanaeth wedi'i lleoli yn Aberhonddu a'r Drenewydd. Roedd y rhaglen ISSP yn cael ei darparu o fewn y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc.

### Data Perfformiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Roedd crynodeb o ddangosyddion cenedlaethol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar adeg yr arolygiad am y cyfnod rhwng Ebrill 2008 a Mawrth 2009.


Roedd perfformiad Powys ar sicrhau bod plant a phobl ifanc, a oedd yn hysbys i'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc, mewn addysg, hyfforddiant neu waith, yn 73.8%. Roedd hyn yn welliant ar y flwyddyn cynt, ac yn uwch na'r cyfartalog ar gyfer Cymru o 69.0%.

Eu perfformiad ar sicrhau llety addas erbyn diwedd y ddedfryd oedd 98.1%. Roedd hyn yn welliant ar y flwyddyn cynt, ac yn well na'r cyfartalog ar gyfer Cymru o 96.1%.


Y "gyfradd aildroseddu ar ôl 9 mis" oedd 90%, sy'n waeth na'r cyfartalog ar gyfer Cymru o 74% (gweler y Rhestr Termau).

## Atodiad 3a: Siartiau o ddata'r arolygiad


**Sampl Achosion: Oed ar ddechrau'r ddedfryd**





**Sampl Achosion: Rhyw**





**Sampl Achosion: Tarddiad ethnig**




**Sampl Achosion: Math o ddedfryd**




**Sampl Achosion: Risg o Niwed**



## Atodiad 3b: Data'r arolygiad

Cafodd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn ei gyflawni ym mis Ebrill 2010.

Roedd yr arolygiad yn cynnwys:

- archwilio arferion mewn sampl o achosion, fel arfer ar y cyd â'r rheolwr achos neu gynrychiolydd arall
- tystiolaeth ymlaen llaw
- ymatebion i holiadur gan blant a phobl ifanc, a dioddefwyr

Rydym hefyd wedi gweld data ar berfformiad ac asesiadau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yng nghyswllt y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc hwn.

## Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer ar gael ar ein gwefan yn:

**http://www.justice.gov.uk/inspectorates/hmi-probation**

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sydd am wneud sylwadau ar unrhyw arolygiad, adroddiad neu fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Probation*
*2nd Floor, Ashley House*
*2 Monck Street*
*London, SW1P 2BQ*

Mae'r siartiau data yn yr adroddiad hwn ar gael yn electronig drwy wneud cais.

## Atodiad 5: Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| ASB/ASBO | Ymddygiad gwrthgymdeithasol / Gorchymyn Ymddygiad gwrthgymdeithasol. |
| ASSET | Offeryn asesu systematig sy'n seiliedig ar ymchwil ac wedi'i ddatblygu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i edrych ar drosedd y person ifanc, yr amgylchiadau personol a'r agweddau a'r credoau sydd wedi cyfrannu at eu hymddygiad troseddu. |
| CAF | Y Common Assessment Framework neu'r Fframwaith Asesu Cyffredin: asesiad safonol o anghenion plentyn neu berson ifanc a sut y gellir diwallu'r anghenion hynny. Mae'n cael ei wneud gan weithiwr allweddol yr achos, gyda phawb arall sy'n gweithio gyda'r unigolyn hwnnw hefyd yn cyfrannu. |
| CAMHS | Child and Adolescent Mental Health Services neu'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc: rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn darparu gwasanaethau arbenigol ar iechyd meddwl ac ymddygiad i blant a phobl ifanc hyd at 16 oed o leiaf. |
| Careworks | un o ddwy system electronig o reoli achosion ar gyfer gwaith troseddwyr ifanc a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Gweler hefyd YOIS+. |
| CRB | Criminal Records Bureau neu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. |
| DTO | Detention and Training Order neu'r Gorchymyn Cadw Dan Glo a Hyfforddi: dedfryd dan glo i bobl ifanc. |
| Estyn | Arolygiaeth EM ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. |
| ETE | Addysg, Hyfforddiant a Gwaith: gwaith i wella dysgu unigolyn, ac i wella eu rhagolygon gwaith. |
| FTE | Full-time equivalent neu Gyfwerth ag Amser Llawn. |
| HM / EM | Ei Mawrhydi. |
| HMIC | Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM |
| HMI Prisons | Arolygiaeth Carchardai EM. |
| HMI Probation | Arolygiaeth Prawf EM |
| Ymyriadau; ymyriadau adeiladol a chyfyngu | Gwaith gydag unigolyn a ddyfeisiwyd i newid eu hymddygiad troseddu a / neu i helpu i warchod y cyhoedd.<br>Ymyriad adeiladol yw un lle mai'r prif bwrpas yw lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu.<br>Ymyriad cyfyngu yw un lle mai'r prif bwrpas yw lleihau Risg unigolyn o achosi Niwed i Eraill.<br>Er enghraifft: gyda throseddwr rhyw, gallai ymyriad adeiladol gael ei roi iddynt drwy raglen troseddwyr rhyw achrededig; gallai ymyriad cyfyngu (i leihau ei Risg o Niwed) gael ei roi iddynt i fonitro, yn gyson a thrylwyr, eu llety, eu cyflogaeth ac unrhyw le y maent yn mynd iddo'n aml, gan osod a gorfodi cyfyngiadau clir fel bo'n briodol i bob achos.<br>Dalier sylw: Mae'r ddau fath o ymyriad yn bwysig. |
| ISSP | Intensive Supervision and Surveillance Programme neu'r Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys: mae'r ymyriad hwn ynghlwm wrth rai gorchmynion a thrwyddedau ac i ddechrau mae'n golygu o leiaf 25 awr o gyswllt â'r rhaglen, gan gynnwys cyfran sylweddol o gyflogaeth, hyfforddiant ac addysg. |
| ToA | Tebygolrwydd o Aildroseddu. Gweler hefyd Ymyriadau adeiladol. |
| LSC | Learning and Skills Council neu'r Cyngor Dysgu a Sgiliau. |
| LSCB | Local Safeguarding Children Board neu'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant: sydd wedi'i sefydlu ym mhob awdurdod lleol (yn sgîl Deddf Plant 2004) i gydgysylltu a sicrhau bod y gwaith aml-asiantaeth o ddiogelu a hybu lles plant yn yr ardal honno'n cael ei wneud yn effeithiol. |
| MAPPA | Multi-Agency Public Protection Arrangements neu'r Trefniadau Gwarchod y Cyhoedd Aml-Asiantaeth; lle mae'r gwasanaethau prawf, heddlu, carchardai ac eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troseddwyr sy'n cyflwyno Risg o Niwed uwch i eraill. |

| | |
|---|---|
| Ofsted | Office for Standards in Education, Children's Services and Skills neu'r Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau: yr Arolygiaeth ar gyfer y gwasanaethau hynny yn Lloegr (nid yng Nghymru, gweler Estyn am hynny) |
| PCT | Primary Care Trust neu Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol. |
| PPO | Prolific and other Priority Offender neu Droseddwyr Mynych a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth: troseddwyr dynodedig, boed yn oedolyn neu'n berson ifanc, sy'n derbyn sylw ychwanegol gan asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol. |
| Cyn-CAF | Yn syml, 'Cais am Wasanaeth' yw hwn mewn sefyllfa lle nad oes efallai angen Fframwaith Asesu Cyffredin. Gellir ei ddefnyddio i ofyn am un neu ddau wasanaeth ychwanegol, e.e. Iechyd, gofal cymdeithasol neu addysg. |
| PSR | Pre-sentence report neu Adroddiad Cyn-Dedfrydu: ar gyfer y llys. |
| 'Y gyfradd aildroseddu ar ôl 9 mis' | Mesur a ddefnyddir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'n nodi faint o droseddau pellach a gofnodir i fod wedi cael eu cyflawni dros gyfnod o naw mis gan unigolion sy'n cael eu goruchwylio ar y pryd gan y Tîm Troseddwyr Ifanc perthnasol, a gall fod yn fwy neu'n llai na 100%.<br>'felly byddai 110% yn golygu bod union 110 o droseddau pellach wedi eu cyfrif i fod wedi cael eu cyflawni 'am bob 100 o unigolion dan oruchwyliaeth' dros y cyfnod hwnnw. Y gyfradd gyfartalog genedlaethol ar gyfer Cymru ar ddechrau 2009 oedd 74%. |
| RMP | Risk management plan neu Gynllun Rheoli Risg: cynllun i leihau Risg yr unigolyn o achosi Niwed. |
| *RoN* | *Risg o Niwed i eraill.* Gweler hefyd Ymyriadau cyfyngu. |
| *'Gwaith RoN, neu 'Gwaith Risg o Niwed'* | Dyma'r term a ddefnyddir fel arfer gan Arolygiaeth Prawf EM i ddisgrifio gwaith a wneir i warchod y cyhoedd, yn bennaf drwy ddefnyddio ymyriadau cyfyngu, er mwyn lleihau unrhyw gyfle sydd gan yr unigolyn i ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi Risg o Niwed i eraill. |
| RoND | Risg o Niwed Difrifol: term a ddefnyddir yn ASSET. Mae'n well gan Arolygiaeth Prawf EM beidio â defnyddio'r term hwn oherwydd nid yw'n helpu i egluro'r gwahaniaeth rhwng pa mor debygol yw rhywbeth o ddigwydd ac effaith / difrifoldeb y digwyddiad. Mae'r term Risg o Niwed Difrifol yn ymgorffori effaith 'ddifrifol' yn unig, tra bod Risg o Niwed yn golygu y gellir rhoi'r sylw angenrheidiol i'r troseddwyr hynny lle mae ymddygiad niweidiol sy'n cael llai o effaith / sy'n llai difrifol yn debygol. |
| Diogelu | Gallu dangos y cymerwyd yr holl gamau rhesymol i leihau'r risg bod plentyn neu berson ifanc yn cael niwed. |
| SIFA | Screening Interview for Adolescents neu Gyfweliad Sgrinio ar gyfer y Glasoed: offeryn sgrinio iechyd meddwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w ddefnyddio gan weithwyr arbenigol. |
| SQIFA | Screening Questionnaire Interview for Adolescents neu Gyfweliad Holiadur Sgrinio ar gyfer y Glasoed: offeryn sgrinio iechyd meddwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w ddefnyddio gan weithwyr Timau Troseddwyr Ifanc. |
| VMP | Vulnerability management plan neu Gynllun Rheoli Agored i Niwed: cynllun i ddiogelu lles yr unigolyn sy'n cael ei oruchwylio. |
| YJB | Youth Justice Board neu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr. |
| YOI | Young Offenders Institution neu Sefydliad Troseddwyr Ifanc: sefydliad gan y Gwasanaeth Carchardai i bobl ifanc sydd wedi eu carcharu ar remand neu wedi eu dedfrydu i garchar. |
| YOIS+ | Youth Offending Information System neu'r System Gwybodaeth Troseddwyr Ifanc: un o ddwy system electronig o reoli achosion ar gyfer gwaith troseddwyr ifanc a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Gweler hefyd Careworks. |
| YOS/T | Gwasanaeth / Tîm Troseddwyr Ifanc. |

© Hawlfraint y Goron

Arolygiaeth Prawf EM
6th Floor Trafford House
Chester Road
Stretford
Manchester
M32 0RS
Ffôn - 0161 869 1300

Mae fformatau eraill ar gael drwy wneud cais.

ISBN 978-1-84099-356-1